Bydd y nodiadau hyn yn eich cynorthwyo i gwblhau tudalennau *Senedd* eich Ffurflen Dreth. Mae'r tudalennau *Senedd* yn cwmpasu eich incwm Seneddol yn unig; gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn cwblhau tudalennau eraill sy'n briodol i'ch amgylchiadau.

Mae'r llyfryn MPs, *Ministers and Tax* yn cynnwys gwybodaeth gefndirol a allai fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae'r llyfryn ar gael yn unig oddi wrth:
Adran Gyhoeddus 1,
Tŷ Glas,
Llanisien,
Caerdydd,
CF14 5XZ.

Ffôn **02920 325201** neu ffacs **02920 765642**.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, er enghraifft:

- eich P60, ffurflen yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu ffurflen Adran y Llywodraeth sy'n dangos manylion cyflog a threth am y flwyddyn
- eich Hysbysiadau Cod TWE ar gyfer 2007-08 a 2008-09
- ffurflen P11D neu ddatganiad cyfatebol o'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu Adran y Llywodraeth sy'n rhoi manylion unrhyw fuddiannau a threuliau a gawsoch yn y flwyddyn
- derbynebion ar gyfer unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd gennych
- unrhyw rai o'r Taflenni Cymorth y credwch sydd eu hangen arnoch.

Defnyddir y gair 'swydd' yn y Nodiadau hyn i gynnwys y swydd a ddelir fel AS, fel AS a Gweinidog, neu fel Gweinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae 'P11D' yn golygu P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol.

Os oeddech yn eich swydd ar 5 Ebrill 2008
Dylai eich P60 ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth o'ch swydd (yn ogystal ag o gyflogaethau blaenorol yn ystod y flwyddyn). Dylai eich P45 (Rhan 1A), os oedd gennych un, ddangos hefyd y cyflog o gyflogaethau blaenorol. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) sy'n berthnasol i gyflogaethau ar wahân i'ch swydd fel AS neu fel Gweinidog, yn y tudalennau *Senedd*.

Os oeddech yn Aelod Seneddol
Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd*.

Os oeddech yn Weinidog yn Nhŷ'r Cyffredin
Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd* ar gyfer eich incwm fel AS ac un sy'n berthnasol i'ch swydd Weinidogaethol - ond gweler isod os newidioch swydd.

Os oeddech yn Weinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi
Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd* - ond gweler isod os newidioch swydd.

Os newidioch eich swydd yn ystod y flwyddyn
Cwblhewch gopi ar wahân o'r tudalennau *Senedd* ar gyfer pob swydd y derbynioch unrhyw incwm ohoni yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2008.

Incwm o swydd

Arian

1 **Taliadau o P60 (neu P45 neu slipiau cyflog) – *cyn didynnu treth***
Nodwch yr arian a gawsoch fel AS neu fel Gweinidog.

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth o'r swydd roeddech ynddi ar 5 Ebrill 2008. Os oedd gennych fwy nag un swydd, gall y ffurflen gynnwys ail

gyfres o fanylion cyflog a threth hefyd ar gyfer eich swyddi blaenorol. Ychwanegir y manylion at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (fel slipiau cyflog, ffurflenni P45 (Rhan 1A), neu ddatganiadau o fuddiant trethadwy) er mwyn cyfrifo'r ffigurau ar gyfer y cyflog o swyddi blaenorol i'w rhoi ym mhob copi o'r tudalennau *Senedd* a gwblhewch (un ar gyfer pob swydd). Os oeddech yn ddi-waith yn ystod y flwyddyn, bydd y ffigur ar eich P60 yn cynnwys unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dal Analluogrwydd a gawsoch. Peidiwch â chynnwys y rhain yn y tudalennau *Senedd* (neu unrhyw gopïau o'r tudalennau *Cyflogaeth* a gwblhewch). Yn lle hynny, dylech nodi unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith ym mlwch 14 ac unrhyw Fudd-dal Analluogrwydd ym mlychau 12 a 13 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Eglurir rhai o'r eitemau mwyaf cyffredin i'w cynnwys yn yr adran 'Taliadau ariannol' isod. Os cawsoch eitem neu daliad mewn cysylltiad â'ch swydd ac os nad ydych yn siŵr a ddylech ei gynnwys ai peidio, cysylltwch â ni neu'ch ymgynghorydd treth am gyngor.

Rheol gyffredinol

Dylech gynnwys yr holl incwm a gawsoch yn y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2008 fel AS neu fel Gweinidog hyd yn oed os oeddech wedi ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach neu os cawsoch eich talu am waith sydd heb ei wneud eto ym mlwch 1.

Dylech drin yr incwm hwn fel petaech wedi ei dderbyn ar y cynharaf o'r canlynol:

- y dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, neu
- y dyddiad pan oedd hawl gennych gael eich talu.

Bydd hyn yn wir hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na chawsoch unrhyw daliad gwirioneddol am eich bod wedi trefnu i'r swm a oedd yn ddyledus i chi gael ei gymhwyso mewn rhyw ffordd arall yn lle hynny.

Taliadau ariannol

Mae'n rhaid i chi nodi'r swm **cyn** didynnu unrhyw dreuliau yr hoffech wneud cais amdanynt, ar gyfer pob eitem.

Dylech gynnwys y taliadau ariannol canlynol ym mlwch 1:

- eich cyflog fel AS neu fel Gweinidog
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol a Thâl Mabwysiadu Statudol ac eithrio pan gewch eich talu gennym ni
- taliadau gan drydydd parti pan wneir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddir neu sydd eto i'w rhoi yn rhinwedd eich swydd fel AS neu fel Gweinidog.

Ni ddylech gynnwys yr eitemau canlynol ym mlwch 1:

- buddiannau a thaliadau am dreuliau a gawsoch. Nodwch y rhain ym mlychau 3 i 14 yn lle hynny
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu swydd, ymddeoliad neu farwolaeth. Nodwch y rhain ym mlychau 3 i 9 yn yr adran 'Cynllun cyfranddaliadau ac ati' ar dudalen Ai 2 o'r tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*
- taliadau a wnaed i'r Cynllun Pensiwn Seneddol.

O ydych wedi derbyn cyfandaliad, er enghraifft Grant Ailsefydlu, a gafodd y taliad ei drethu a'i gynnwys ar eich P45, ac rydych wedi eu nodi yn y blychau ar gyfer cyfandaliadau ar eich Ffurflen Dreth, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigur a roddwch ym mlwch 1.

2 **Treth a ddidynnwyd o flwch 1**

Nodwch swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau a nodir ym mlwch 1, ym mlwch 2.

Dangosir y dreth a ddidynnwyd ar eich ffurflen P60 neu P45(Rhan 1A). Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 2 hyd yn oed os oedd yn rhaid i chi gwblhau blychau 3 i 9 o'r adran 'Cynllun Cyfranddaliadau a chyfandaliadau cyflogaeth' ar dudalen Ai 2 y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol* i wneud addasiad ym mlwch 1.

Buddiannau o'ch swydd

Bydd yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu eich Adran o'r Llywodraeth yn anfon atom fanylion yr holl fuddiannau a threuliau trethadwy a gawsoch yn rhinwedd eich swydd. Byddant yn rhoi'r manylion hyn i chi hefyd.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu eich Adran **oddefeb** ar eu cyfer. Peidiwch â chyfeirio at yr eitemau hyn. (Trefniant yw **goddefeb** y gall yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu eich Adran o'r Llywodraeth fod wedi ei wneud gyda ni. Mae'n eich arbed rhag cynnwys buddiant neu daliad treuliau a gewch fel AS neu fel Gweinidog fel incwm ac yn eich arbed rhag gwneud cais cyfatebol am y treuliau caniataol a delir gennych.)

3 **Teithio, gwarantau teithio a thalebau**

Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw dalebau a ddarperir i chi (neu i'ch teulu neu eich aelwyd) yn rhinwedd eich swydd fel AS. Pan fyddwch yn defnyddio gwarantau ar gyfer teithio mewn trên, ar y môr neu wrth hedfan bydd yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth yn dweud wrthym gost unrhyw deithiau nad ydynt yn amlwg yn deithiau busnes. Byddant yn rhoi'r wybodaeth hon i chi hefyd. Cynhwysir yr holl dalebau a ddarparwyd i chi ar gyfer teithiau busnes mewn 'goddefeb'; felly peidiwch â'u nodi ar eich Ffurflen Dreth.

Nodwch y ffigur a roddwyd i chi gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â busnes ym mlwch 3. Os credwch fod y ffigur hwn yn cynnwys mwy na'ch teithiau preifat, gallwch hawlio'r swm mewn perthynas â theithiau busnes ym mlwch 11. Os hoffech eglurhad pellach cysylltwch â ni neu'ch ymgynghorydd treth.

4 **Llety ac eithrio Lwfans Costau Byw Ychwanegol**

Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw lety a gwasanaethau ategol (er enghraifft gwres, golau, glanhau) a gewch chi (neu eich teulu neu eich aelwyd) yn rhinwedd eich swydd fel AS. (Dylai unrhyw lety a gewch yn rhinwedd swydd neu gyflogaeth arall gael ei nodi ar *dudalennau* ar wahân sy'n cwmpasu'r swydd neu'r gyflogaeth honno.) Caiff gwerth rhai mathau o lety eu heithrio rhag treth, er enghraifft, os oes bygythiad arbennig i'ch diogelwch ac os darperir y llety i chi fel rhan o drefniadau diogelwch arbennig. Os ydych wedi cytuno â ni fod eich llety wedi'i eithrio, yna oni bai fod amgylchiadau wedi newid, peidiwch â nodi unrhyw beth ym mlwch 4. Fodd bynnag, codir treth ar y gwasanaethau ategol. Cyfyngir hyn fel arfer i 10% o gyflog y swydd dan sylw. Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 4.

5 **Darpariaethau Mân Dreuliau: *eitemau digyfalaf***

Bydd taliadau a gewch gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth i'ch ad-dalu am dreuliau a delir gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog am redeg swyddfa yn drethadwy. (Gwnewch gais am unrhyw dreuliau caniataol at ddibenion treth drwy gwblhau blychau 11 i 14.)

Dylai'r Swyddfa Ffioedd roi'r manylion i chi. Nodwch y swm a ad-dalwyd neu a dalwyd i chi, neu ar eich rhan ym mlwch 5. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer prynu offer swyddfa gan mai cyfalaf yw hyn - defnyddiwch flwch 6 yn lle hynny.

Enghreifftiau o'r symiau i'w cynnwys ym mlwch 5 yw'r rhai a gewch ar gyfer treuliau cynnal swyddfa o ddydd i ddydd fel gwres, golau, ffôn, post, deunyddiau papur.

Peidiwch â chynnwys manylion am daliadau a wnaed ar gyfer cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil. Peidiwch â chynnwys fel incwm unrhyw symiau a dalwyd i chi gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth fel cyfraniad tuag at y pensiynau ar gyfer ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil. Ni ddylech ychwaith wneud cais am lwfans ar gyfer y symiau hyn. Mae'r symiau hyn yn drethadwy ac yn ganiataol mewn symiau tebyg ac rydym wedi cytuno nad oes angen i chi eu nodi ar eich Ffurflen Dreth.

Dylech gynnwys hefyd unrhyw daliadau'r Lwfans Cyfathrebu ar gyfer prynu eitemau di-gyfalaf.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

6 **Darpariaethau Mân Dreuliau: *eitemau cyfalaf***

O dan reolau'r Darpariaethau Mân Dreuliau, gall yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth ad-dalu cost offer swyddfa i chi, er enghraifft cyfrifiadur personol neu ffôn symudol. Cewch eich trethu ar y symiau hyn a ad-dalwyd. Dylai'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth roi'r manylion i chi. Nodwch y cyfanswm ym mlwch 6. (Os ydych am wneud cais am lwfansau cyfalaf cwblhewch flwch 14).

Peidiwch â chynnwys unrhyw beth ar gyfer offer a oedd ar gael i chi o dan drefniadau'r Tŷ i ddarparu offer Technoleg Gwybodaeth.

Dylech gynnwys hefyd unrhyw daliadau'r Lwfans Cyfathrebu ar gyfer prynu eitemau cyfalaf.

7 **Lwfans Ysgrifenyddol Dros Dro**

Darperir y lwfans hwn o gronfeydd ar wahân i gwrdd â chostau Aelod sy'n gorfod talu am gymorth ysgrifenyddol neu ymchwil tra bod ei gyflogai/chyflogai yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu feichiogrwydd. Dylech nodi'r symiau a dalwyd ar eich rhan mewn perthynas â staff dros dro ym mlwch 7.

8 **Cronfa Cymorth Ariannol ac Ad-daliadau ariannol eraill**

Os cewch daliadau gan y Gronfa Cymorth Ariannol fel Llefarydd yr Wrthblaid, bydd y taliadau'n agored i dreth fel rhan o'ch incwm (yn yr un modd â'r Darpariaethau Mân Dreuliau). Nodwch y swm ym mlwch 8. (Gellir hawlio unrhyw dreuliau caniataol a dalwch wrth gyflawni eich dyletswyddau Seneddol ym mlychau 11 i 14).

Nodwch ym mlwch 8 unrhyw ad-daliadau a wnaed i chi gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth ar gyfer costau llogi cerbyd, costau tacsi neu unrhyw ad-daliadau trethadwy na chafodd eu nodi mewn man arall yn y *tudalennau* hyn. Gellir gwneud cais am ryddhad treth ar gyfer y taliadau hyn ym mlychau 11 i 14.

9 **Pob buddiant arall**

Dylai'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth neu eich Adran fod wedi rhoi manylion i chi am unrhyw fuddiannau eraill a gawsoch. Nodwch gyfanswm cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill a gawsoch fel AS neu fel Gweinidog nas cynhwyswyd mewn man arall, er enghraifft ym mlychau 3 i 8, ym mlwch 9.

Cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill

Pennir y cyfwerth mewn arian mewn ffyrdd gwahanol, yn unol â'r math o fuddiant.

Asedion (ac eithrio tir a cherbydau modur) a ddarperir at ddefnydd preifat

Pan fo'r ased wedi bod ar gael trwy gydol y flwyddyn bydd y cyfwerth mewn arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar y farchnad pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf i ddarparu buddiant, yn ogystal â
- treuliau (ac eithrio'r gost o'i gaffael) a dalwyd gennych mewn cysylltiad ag ef, na fyddent wedi eu talu petai'r buddiant heb gael ei ddarparu.

Os yw'r cyfanswm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un Aelod bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm llawn. Caiff y cyfwerth mewn arian ei ostwng gan unrhyw swm a ad-delir i'r darparwr yn gyfnewid am y buddiant. Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Pob buddiant arall

Y cyfwerth mewn arian fel arfer fydd yr hyn gostiodd y buddiant i'r person a'i ddarparodd (llai unrhyw swm a ad-dalwyd i'r darparwr). Os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un Aelod bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm llawn. Am fwy o wybodaeth gweler llyfryn 480, *Expenses and benefits - A tax guide* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Dylech sicrhau eich bod yn cynnwys buddiant car, neu gar a thanwydd a oedd ar gael i chi yn rhinwedd eich swydd fel AS ym mlwch 9. Peidiwch â chynnwys buddiannau o unrhyw swydd neu gyflogaeth nad yw'n ymwneud â'r Senedd. Nodwch y rhain ar dudalennau *Cyflogaeth* eich Ffurflen Dreth.

Rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith isod i'ch helpu i bennu'r cyfanswm ar gyfer blwch 9.

Taflen Waith ar gyfer blwch 9

Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat		£
Ffôn/ffonau cartref		£
Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol		£
Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd		£
Gofal plant a gefnogir gan gyflogwr (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - gweler llyfryn 480)		£
Cymorth addysgol a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - gweler llyfryn 480)		£
Pob buddiant arall		£
Cyfanswm	A	£

Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 9 yn nhudalennau'r Senedd

10 **Taliadau mantoli**

Pan fydd yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth yn eich ad-dalu, neu'n talu ar eich rhan, y gost o brynu offer swyddfa, mae'r symiau yn drethadwy.

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer dibrisiant blynyddol ar offer sydd angen i chi ei ddefnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau. Gelwir y rhyddhad hwn yn 'lwfansau cyfalaf'. Weithiau, pan werthir neu pan roddir i ffwrdd eitem o'r offer, caiff peth o'r lwfansau cyfalaf a gawsoch eu hadennill. Gelwir hyn yn 'dâl mantoli'.

Rhoddir eglurhad manwl o'r ffordd y caiff lwfansau cyfalaf eu cyfrifo yn y nodiadau hyn yn yr adran 'Beth yw lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli' sy'n dechrau ar dudalen MPN 7. Os bydd angen arweiniad pellach arnoch, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Treuliau'r swydd a dalwyd gennych

Mae'r adran hon yn egluro'r rheolau ar gyfer gwneud cais am dreuliau a dalwyd gennych o anghenraid wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Sylwer y gall yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth wneud taliadau ar eich rhan, na ellir eu didynnu wrth gyfrifo eich treth.

'Goddefebau'

Peidiwch â chynnwys unrhyw dreuliau a dalwyd gennych yn eich cais:

- os gallwch eu hawlio'n ôl o'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth, ac
- os cwmpesir y treuliau gan **oddefeb**.

(Os ydych yn ansicr a oes gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth oddefeb dylech ofyn am fanylion. Gweler hefyd yr adran dan y pennawd 'Buddiannau o'ch swydd, sy'n dechrau ar dudalen MPN3.)

Fodd bynnag, os talwyd gwariant caniataol gennych sy'n fwy na'r swm a gwmpesir gan yr oddefeb gallai fod hawl gennych i wneud cais am ddidyniad ar gyfer y swm gormodol.

11 **Gwarantau teithio**

Pan delir am deithiau trên, teithiau ar y môr neu deithiau hedfan drwy ddefnyddio gwarantau teithio bydd yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth yn eu harchwilio.

Bydd yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth yn dweud wrthych faint oedd cost y teithiau nad ydynt yn amlwg yn deithiau busnes. Os credwch fod y swm yn anghywir - ac yn cynnwys mwy na chost teithiau preifat - dylech nodi'r swm y credwch sy'n gysylltiedig â theithiau busnes ym mlwch 11.

12 **Cymorth ysgrifenyddol a chlercaidd, a chymorth ymchwil**

Bydd y gost o gyflogi cynorthwywr ysgrifenyddol, clercaidd a chymorth ymchwil a delir o anghenraid wrth ymgymryd â'ch dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog wedi ei thalu gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth o dan y Cytundeb Canolog. Mae'r symiau hyn yn agored i dreth ac yn ganiataol mewn symiau tebyg, ac rydym wedi cytuno nad oes angen i chi eu cynnwys yn eich Ffurflen Dreth.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Dylech fodd bynnag, hawlio unrhyw swm a dalwyd ar gyfer Lwfans Ysgrifenyddol Dros Dro, neu a gyfrannwyd gennych allan o'ch arian eich hun, neu allan o'r Gronfa Cymorth Ariannol. Nodwch y symiau hyn ym mlwch 12.

13 **Treuliau swyddfa**

Nodwch gyfanswm y symiau a wariwyd yn ystod y flwyddyn ar redeg eich swyddfa o ddydd i ddydd, er enghraifft, ar wres, golau, ffôn, post, deunyddiau ysgrifennu ym mlwch 13. Yn aml bydd y ffigur gyfwerth â'r symiau a dalwyd i chi neu a dalwyd ar eich rhan gan yr Adran Gyllid a Gweinyddiaeth ar gyfer y mathau hynny o eitemau. Byddant yn rhoi manylion i chi.

Os ydych, wedi talu symiau heblaw drwy'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn, rhowch gyfanswm y symiau hyn ym mlwch 13. Fodd bynnag, ni ddylech gynnwys unrhyw beth ym mlwch 13 sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag eiddo rydych wedi gwneud cais ar ei gyfer i'r Adran Gyllid a Gweinyddiaeth ar gyfer Lwfans Costau Byw Ychwanegol.

14 **Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf**

Nodwch gyfanswm unrhyw dreuliau eraill a lwfansau cyfalaf eraill ym mlwch 14.

Treuliau eraill

Gallwch ond wneud cais am y treuliau y byddai pob AS neu Weindog yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid i'r treuliau gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd yn wirioneddol. Nid yw treuliau a allai eich rhoi mewn sefyllfa i wneud eich swydd, yn hytrach na'i chyflawni mewn gwirionedd, yn ganiataol.

Cafodd y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais amdanynt eu hystyried eisoes. Fodd bynnag, efallai y gallech wneud cais am dreuliau eraill a delir gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau, er enghraifft, taliadau a nodwyd gennych ym mlwch 8 ac sy'n cwrdd â'r amodau cymhwyso ar gyfer rhyddhad treth. Efallai eich bod wedi dod i gytundeb â ni ynglŷn â cheisiadau ar gyfer eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly, dylech gyfrifo swm y treuliau caniataol ar y sail gytûn. Os ydych yn ansicr o'r hyn y gallech eu hawlio dylech ofyn i ni am gymorth **cyn** cwblhau blwch 14.

Lwfansau cyfalaf

Bydd lwfansau cyfalaf fel arfer ar gael ar gyfer y gost cyfalaf i chi o'r offer y mae'n rhaid i chi eu darparu wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Does dim lwfans ar gael ar gyfer offer a ddarparwyd i chi o dan drefniadau'r Tŷ i roi offer Technoleg Gwybodaeth neu asedion a brynwch ar gyfer eu gosod neu eu defnyddio mewn preswylfan. Yn ogystal â hyn, ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer eich cerbyd modur. Mae'r adran isod yn sôn wrthych sut i'w cyfrifo.

Os byddwch yn dechrau neu'n gorffen defnyddio eitem fel AS neu fel Gweinidog yn ystod y flwyddyn, cyfrifwch y lwfansau cyfalaf fel petaech wedi prynu neu werthu'r eitem ar y dyddiad hwnnw, gan ddefnyddio gwerth y farchnad ar yr adeg honno.

Beth yw lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli?

Mae'r adran hon yn sôn wrthych sut i gyfrifo eich lwfansau cyfalafa a'ch taliadau mantoli sy'n mynd ym mlychau 14 a 10 ar dudalennau'r *Senedd*. Mae'r enghreifftiau ar dudalennau MPN 15 a 16 yn dangos yr hyn ddylech ei wneud.

Mae lwfansau cyfalaf yn ddidyniad o'ch incwm trethadwy. Maen nhw'n lwfans ar gyfer dibrisiad yng ngwerth asedion neu gyfarpar y mae'n rhaid i chi eu darparu er mwyn ymgymryd â'ch dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Cynhwysir lwfansau cyfalaf ym mlwch 14 yn nhudalennau *Senedd* eich Ffurflen Dreth.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer car, beic modur neu feic – mae cyfraddau'r lwfans milltiroedd a gymeradwywyd yn cynnwys elfen ar gyfer dibrisiant.

Mae taliadau mantoli yn ychwanegiad at eich incwm trethadwy. Weithiau byddant yn codi pan werthwch ased neu offer yr oeddech yn hawlio lwfansau cyfalaf ar eu cyfer yn flaenorol, neu os byddwch yn peidio â'u hawlio ar gyfer eich dyletswyddau swyddogol. Nodir taliadau mantoli ym mlwch 10 (ynghyd â thaliadau eraill a gafwyd am dreuliau) ar dudalennau'r *Senedd*.

Pa dreuliau sy'n cymhwyso?

Fel arfer bydd lwfansau cyfalaf ar gael ar y gost i chi o ddarparu asedion neu offer angenrheidiol er mwyn cyflawni eich dyletswyddau fel AS ac/neu fel Gweinidog. A siarad yn gyffredinol, gall unrhyw beth a ddefnyddiwch i gyflawni eich dyletswyddau swyddogol gydag oes ddefnyddiol sydd o leiaf yn ddwy flynedd gymhwyso am lwfans. Mae offer swyddfa megis desgiau a chypyrddau cadw ffeiliau yn enghreifftiau nodweddiadol.

Ystyrir asedion ac offer yn 'angenrheidiol' os na allech wneud eich dyletswyddau swyddogol hebddynt. Mae'n rhaid eu bod yn bethau y byddai'n rhaid i bob AS ac/neu Weinidog eu darparu.

Sut caiff lwfansau cyfalaf eu cyfrifo?

Ar gyfer 2007-08 mae dau fath o lwfansau cyfalaf:

- gellir hawlio 'lwfansau blwyddyn gyntaf' ar gostau asedion ac offer a brynwyd yn 2007-08

  gellir hawlio 'lwfansau ar bapur':
  - ar gost asedion ac offer a gaffaelwyd gennych yn 2007-08 ac ni hawliwyd lwfansau blwyddyn gyntaf ar eu cyfer, ac
  - ar werth eitemau a ddygwyd ymlaen (y 'gwerth ar bapur') ac a hawliwyd lwfansau cyfalaf gennych ar eu cyfer yn 2006-07.

Lwfansau blwyddyn gyntaf

A'ch bod yn parhau yn y swydd ar ôl 5 Ebrill 2008 gallwch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar gyfradd o 50% ar gost asedion ac offer a brynwyd yn 2007-08.

Os defnyddir yr ased yn rhannol yn unig ar gyfer eich dyletwyddau swyddogol, gostyngir eich lwfans blwyddyn gyntaf yn unol â hynny.

Enghraifft 1

Daeth Siân yn Aelod ar 6 Hydref 2007 ac mae'n rhaid iddi wario £600 ar gyfrifiadur i'w galluogi i ymgymryd â'i dyletswyddau swyddogol. Mae'n defnyddio'r cyfrifiadur 10% at ddibenion preifat a 90% ar gyfer dyletswyddau swyddogol. Mae Siân yn hawlio lwfans blwyddyn gyntaf am 2007-08 fel a ganlyn:

Cost y cyfrifiadur	£600
Lwfans blwyddyn gyntaf (50%)	£300
Lwfans sy'n ddyledus = cyfran busnes (£300 x 90%)	**£270**
(Gwerth i'w gario ymlaen i 2008-09 (£600 - £300)	£300)

Sylwer: mae'r lwfans blwyddyn gyntaf o 50% yn ddyledus (yn amodol ar gyfyngiad ar gyfer defnydd preifat) hyd yn oed petai Aelodaeth Siân wedi dechrau rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn dreth.

Os defnyddir yr ased yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol, dylai'r gwerth a gariwyd ymlaen gael ei gynnwys yn y 'gronfa' o asedion ac offer yr hawlir lwfansau ar bapur ar eu cyfer yn 2008-09 a blynyddoedd dilynol (gweler y nodiadau ar Daflen Waith 2 ar dudalen MPN 9).

Os defnyddir yr ased yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol, bydd yr ased yn aros y tu allan i'r gronfa o asedion a cyfrifir y lwfansau ar bapur ar gyfer 2008-09 ar wahân (gweler y nodiadau ar Daflen Waith 3 ar dudalen MPN 10).

Lwfansau blwyddyn gyntaf – pwyntiau eraill i'w nodi

- Does dim rhaid i chi hawlio lwfansau blwyddyn gyntaf. Os yw'n well gennych, gallwch wneud cais am lwfansau ar bapur yn lle hynny. Gallwch hawlio lwfansau blwyddyn gyntaf hefyd ar ran o'r gwariant cymhwysol a lwfansau ar bapur am y gweddill.
- A'ch bod yn parhau yn y swydd ar ôl 5 Ebrill 2008, gallwch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar gyfer 2007-08 hyd yn oed os gwerthwch yr eitemau dan sylw ar neu cyn 5 Ebrill 2008. Yn yr achos hwnnw, does dim rhaid cario unrhyw weddill, sydd heb dderbyn rhyddhad (£300 yn Enghraifft 1 uchod), ymlaen yn llawn i 2008-09. Gallwch ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo lwfans ar bapur (neu lwfans mantoli) ar gyfer 2007-08 (gweler y nodiadau ar Daflenni Gwaith 2, 4 a 5).

Os byddwch yn parhau yn y swydd ar ôl 5 Ebrill 2008, defnyddiwch Daflen Waith 1 i gyfrifo eich lwfansau blwyddyn gyntaf ar gyfer asedion ac offer a brynwyd yn 2007-08. Os ydych am hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar gyfer mwy nag un eitem:

- gellir cynnwys yr holl eitemau a ddefnyddiwch yn **gyfan gwbl** at ddibenion dyletswyddau swyddogol **ar yr un** Daflen Waith
- rhaid nodi **pob** eitem a ddefnyddir yn **rhannol** gennych at ddibenion dyletswyddau swyddogol ar gopi **ar wahân** o Daflen Waith 1.

Taflen Waith 1

Cost yr eitem(au) a brynwyd yn 2007-08	A	£
Lwfans blwyddyn gyntaf sy'n ddyledus *blwch A x 50%*	B	£
Cyfran y defnydd busnes ym mlwch B (gweler Nodyn 1)	C	£
Copiwch y ffigur ym mlwch C i flwch 14		
Ffigur i'w gario ymlaen (gweler Nodyn 2) *Cadwch ar gyfer tudalennau'r Senedd y flwyddyn nesaf*	D	£

Nodyn 1: os defnyddir yr ased yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol, bydd y ffigurau ym mlychau B a C yr un fath.

Nodyn 2: os defnyddir yr ased yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol, caiff y gwerth a gariir ymlaen ei gynnwys yn eich 'cronfa' ar gyfer 2008-09 (ceir fwy o

fanylion ynglŷn â chronfeydd yn y nodiadau ynglŷn â lwfansau ar bapur). Os defnyddir yr ased yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol caiff y gwerth ei gadw y tu allan i'r gronfa a chyfrifir lwfansau ar bapur ar gyfer 2008-09 ar wahân.

Lwfansau ar bapur

Ac eithrio pan fydd lwfansau blwyddyn gyntaf wedi eu hawlio (gweler tudalennau MPN 7 a MPN 8), caiff cost asedion neu offer a ddefnyddir yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol ei ychwanegu at ei gilydd i ffurfio 'cronfa' o wariant caniataol. Rhoddir lwfansau ar bapur ar gyfer pob blwyddyn y byddwch yn parhau i ddal swydd ar gyfradd o 25% o'r gwariant yn y gronfa sydd heb dderbyn rhyddhad ar ddiwedd y flwyddyn dreth (gweler Taflen Waith 2).

Rhaid cadw rhai eitemau allan o'r gronfa, a rhaid i chi gyfrifo lwfans cyfalaf (neu dâl mantoli) ar wahân ar gyfer pob eitem. Mae'r rheiny sydd angen cyfrifiad ar wahân yn cynnwys:

- unrhyw asedion neu offer a ddefnyddiwch yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol
- unrhyw asedion neu offer y gwnaethoch 'ddewis' i'w trin fel 'ased oes fer' (gweler tudalen MPN 13).

Dosraniad ar sail amser (lwfansau ar bapur yn unig)

Os daethoch yn Aelod yn ystod y flwyddyn dreth rhaid dosrannu'r lwfans ar bapur ar sail amser am y flwyddyn gyntaf. Er enghraifft, os daethoch yn Aelod ar 6 Mehefin byddech yn hawlio $^{10}/_{12}$ fed o'r lwfans 25%.

Os prynwch ased neu eitem o offer *rhan o'r ffordd* drwy'r flwyddyn dreth mae gennych hawl o hyd i'r lwfans ar bapur llawn o 25% cyhyd â'ch bod yn yr un swydd trwy gydol y flwyddyn honno.

Eitemau a ddefnyddiwyd yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol

Os defnyddiwch yr eitem yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol gostyngir y lwfans ar bapur o 25% mewn cyfrannedd i'r defnydd busnes. Er enghraifft, os defnyddiwyd eitem benodol dri chwarter o'r amser at ddibenion busnes swyddogol ac un chwarter at ddibenion preifat, buasech yn hawlio tri chwarter y lwfans 25%.

Lwfansau ar bapur: cronfa o asedion ac offer a ddefnyddir yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol

Defnyddiwch Daflen Waith 2 i gyfrifo eich lwfans ar bapur ar gyfer asedion neu offer a ddefnyddiwch yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol (ond nid 'asedion ag oes fer') ac os byddwch yn parhau yn y swydd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Os byddwch yn peidio â bod yn Aelod yn ystod y flwyddyn, defnyddiwch Daflen Waith 4 yn lle.

Seilir y cyfrifiad ar Daflen Waith 2 ar 'gronfa' wariant, sydd heb dderbyn rhyddhad, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- gweddill y gwariant, sydd heb dderbyn rhyddhad, a ddygwyd ymlaen o 2006-07, yn ogystal â
- cost (gan gynnwys TAW) unrhyw eitemau ychwanegol a ddygwyd ymlaen yn 2007-08 rydych heb hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar eu cyfer, llai
- y derbyniadau (trwy werthu neu ddefnyddio gwerth marchnad) o unrhyw offer a waredwyd gennych yn 2007-08.

Mae'r lwfans ar bapur yn 25% o werth y 'gronfa' ar ddiwedd y flwyddyn (wedi'i gyfrifo fel y gwelir uchod).

Os byddwch yn dechrau neu'n gorffen defnyddio eitem o offer at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol, heb mewn gwirionedd ei brynu neu ei werth, cyfrifir lwfansau ar bapur fel petaech wedi prynu neu werthu'r eitem ar y dyddiad y gwnaethoch ddechrau neu orffen ei defnyddio. Y swm a ddefnyddir yn y cyfrifiad i bennu eich lwfansau ar gyfer eitemau o'r fath yw 'gwerth marchnad' yr eitem ar y dyddiad y dechreuoch neu y gorffennoch ei defnyddio at ddibenion dyletswyddau

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

swyddogol. Hynny yw, y swm y gallech fod wedi cael amdani petaech wedi ei gwerthu ar y farchnad agored ar y dyddiad hwnnw.

Os oes rhaid i chi ddefnyddio ffigur ar gyfer 'gwerth marchnad', nodwch sut wnaethoch bennu'r ffigur hwnnw yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 15 ar dudalen MP 2 y tudalennau *Senedd*.

Os byddwch yn parhau yn eich swydd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, defnyddiwch Daflen Waith 2 i gyfrifo eich lwfans ar bapur ar eitemau lle nad ydych wedi hawlio lwfans blwyddyn gyntaf. Os byddwch yn peidio â bod yn Aelod yn ystod y flwyddyn, defnyddiwch Daflen Waith 4 yn lle.

Taflen Waith 2

Gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen o 2006-07	A	£
Cost asedion neu offer a brynwyd yn 2007-08 (neu werth marchnad, os dechreuoch ddefnyddio eitem a brynwyd mewn blwyddyn gynharach at ddibenion dyletswyddau swyddogol) gweler Nodyn 1	B	£
Derbyniadau eitemau a werthwyd yn y flwyddyn (neu werth marchnad eitemau y gwnaethoch orffen eu defnyddio at ddibenion dyletswyddau swyddogol heb eu gwerthu), gweler Nodyn 2. Os oedd derbyniadau'r gwerthu neu werth unrhyw eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno, gweler Nodyn 3	C	£
Os ydy C yn fwy na blwch A + B peidiwch â defnyddio'r Daflen Waith hon. Defnyddiwch Daflen Waith 4. Gwerth sydd ar gael ar gyfer lwfansau *blwch A + blwch B llai blwch C*	D	£
Lwfans ar bapur sy'n ddyledus *blwch D x 25%* *Copïwch y ffigur ym mlwch E i flwch 14*	E	£
Gwerth y gronfa a gariwyd ymlaen *blwch D llai blwch E* *Cadwch ar gyfer tudalennau'r Senedd y flwyddyn nesaf*	F	£

Nodyn 1: Os gwerthir eitem yr hawliwyd lwfans blwyddyn gyntaf gennych yn 2007-08, ar neu cyn 5 Ebrill 2008, a gwnaethoch ei defnyddio at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol yn unig, didynnwch y lwfans blwyddyn gyntaf o'r gost wreiddiol ac ychwanegwch y gweddill (os oes un) at eich cronfa ar gyfer 2007-08.

Nodyn 2: rhaid i chi gynnwys derbyniadau gwerthiant (os oes rhai) yr eitemau hynny y gwnaethoch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar eu cyfer yn 2007-08.

Nodyn 3: os ydy derbyniadau gwerthiant neu werth eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno i chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi, nodwch y gost wreiddiol yn lle hynny. Mae Taflen Gymorth 239 *Chattels and Capital Gains Tax* yn esbonio sut y gallai Treth Enillion Cyfalaf fod yn berthnasol i'r eitemau hyn.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Lwfans ar bapur – asedion ac offer eraill

Defnyddiwch Daflen Waith 3 i gyfrifo'ch lwfans ar bapur ar gyfer unrhyw ased neu eitem o offer nas cynhwyswyd yn Nhaflen Waith 2 ac roeddech heb hawlio lwfans blwyddyn gyntaf. Gallai'r rhain fod:

- asedion neu offer a ddefnyddiwch yn rhannol at ddibenion preifat
- unrhyw asedion neu offer rydych wedi gwneud 'dewis' ar eu cyfer er mwyn eu trin fel 'ased ag oes fer' (gweler tudalen MPN 13).

Ni chaiff cost yr eitemau hyn eu rhoi at ei gilydd mewn cronfa. Rhaid i chi gyfrifo lwfans cyfalaf (neu dâl mantoli) ar wahân ar gyfer pob eitem.

Mae'r cyfrifiad yn dilyn patrwm Taflen Waith 2, ond ceir cam ychwanegol. Gweler 'Eitemau a ddefnyddiwyd yn rhannol at ddibenion dyletswyddau swyddogol' ar dudalen MPN 9.

Gwnewch gyfrifiad ar wahân ar gyfer pob eitem nas cynhwyswyd yn y 'gronfa' yn Nhaflen Waith 2 ac rydych yn parhau i'w defnyddio ar gyfer eich dyletswyddau swyddogol ar ddiwedd y flwyddyn dreth, ac rydych heb hawlio lwfans blwyddyn gyntaf yn 2007-08.

Os ydych ar ddiwedd y flwyddyn neu cyn hynny:

- wedi peidio â bod yn Aelod, neu
- wedi gwerthu'r ased neu'r eitem o offer, neu
- wedi gorffen ei ddefnyddio ar gyfer eich dyletswyddau swyddogol

defnyddiwch Daflen Waith 5 yn lle.

Taflen Waith 3

Gwerth a ddygwyd ymlaen o 2006-07, neu'r gost os prynwyd yr eitem yn 2007-08, neu'r gwerth marchnad os dechreuoch ddefnyddio eitem a brynwyd mewn blwyddyn gynharach ar gyfer dyletswyddau swyddogol	A	£
Lwfans ar bapur (gweler Nodyn 1) *blwch A x 25%*	B	£
Cyfran y defnydd busnes o flwch B (gweler Nodyn 2)	C	£
Copïwch y ffigur ym mlwch C i flwch 14		
Gwerth i'w gario ymlaen *blwch A llai blwch B* *Cadwch ar gyfer tudalennau'r Senedd y flwyddyn nesaf*	D	£

Nodyn 1: Os daethoch yn Aelod yn ystod y flwyddyn rhaid i chi beidio â hawlio'r lwfans 25% yn llawn. Gweler y nodyn ar dudalen MPN 9 ynglŷn â 'Dosrannu ar sail amser'.

Nodyn 2: Os defnyddir yr ased ar gyfer dyletswyddau swyddogol yn unig, bydd y ffigurau ym mlychau B a C yr un fath.

Lwfansau mantoli

Mae 'lwfans mantoli' yn fath arbennig o lwfans cyfalaf.

Gallai fod yn ddyledus ar gyfer:

- asedion ac offer yn y 'gronfa' os peidioch â bod yn Aelod yn ystod y flwyddyn
- asedion neu eitemau o offer eraill os yn ystod y flwyddyn
  - gwnaethoch beidio â bod yn Aelod, neu
  - gwnaethoch werthu'r eitem dan sylw, neu
  - gwnaethoch orffen eu defnyddio ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ond ni wnaethoch eu gwerthu.

Yn yr achosion hyn, nid yw'r cyfrifiad 25% yn Nhaflenni Gwaith 2 a 3 yn gymwys. Yn lle hynny, y lwfans sy'n ddyledus yw:

- gweddill y gwariant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, llai
- derbyniadau gwerthu'r (neu eu gwerth marchnad os na werthwyd nhw) eitem(au) ar y dyddiad y peidioch fod yn Aelod, neu pan orffennoch eu defnyddio at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol.

Defnyddiwch **Daflen Waith 4** i gyfrifo lwfans mantoli ar gyfer eitemau yn y 'gronfa'.

Defnyddiwch **Daflen Waith 5** i gyfrifo lwfans mantoli ar gyfer eitemau eraill (gan baratoi cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob un.)

Ar gyfer asedion a ddefnyddiwyd yn rhannol yn unig at ddibenion dyletswyddau swyddogol, gostyngir y lwfans mantoli i'r gyfran a ddefnyddiwyd at ddibenion dyletswyddau swyddogol fel y'u disgrifir yn y nodyn ar dudalen MPN 9.

Os ydy gwerth yr hyn a waredwyd yn fwy na'r gwerth a ddygwyd ymlaen, cyfrifwch y tâl mantoli fel y disgrifir isod. Defnyddiwch Daflen Waith 4 neu 5 ar gyfer taliadau mantoli yn ogystal â lwfansau mantoli.

Taliadau mantoli

Mae 'tâl mantoli' yn ychwanegiad at eich incwm trethadwy. Mae'n codi pan fydd gwerth gwaredu eitem (neu eitemau) yn uwch na'r gwerth a ddygwyd ymlaen. Gall hyn ddigwydd:

- os peidiwch â bod yn Aelod yn ystod y flwyddyn, neu
- os gwerthwyd ased, neu
- os peidiwch a defnyddio eitem at ddibenion dyletswyddau swyddogol, ond nid ydych yn ei werthu.

Defnyddiwch **Daflen Waith 4** i gyfrifo tâl mantoli ar gyfer eitemau yn y 'gronfa'.

Defnyddiwch **Daflen Waith 5** i gyfrifo tâl mantoli ar gyfer eitemau eraill (gan baratoi cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob un.)

Gallech gael lwfansau cyfalaf (neu lwfansau mantoli) ar rai Taflenni Gwaith a thaliadau mantoli ar eraill. Os bydd hyn yn digwydd, peidiwch â'u gosod yn erbyn ei gilydd. Yn lle hynny, nodwch symiau'r taliadau mantoli ar wahân ym mlwch 10 a swm y lwfansau cyfalaf (neu'r lwfansau mantoli) ym mlwch 14.

Asedion ac offer mewn 'cronfeydd': lwfansau mantoli a thaliadau mantoli
Defnyddiwch Daflen Waith 4 os gwnaethoch beidio â bod yn Aelod ar neu cyn diwedd y flwyddyn dreth, neu os defnyddioch Daflen Waith 2 ac mae'r swm yn C yn fwy na swm (A + B).

Taflen Waith 4

Gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen o 2006-07	A	£
Cost asedion neu offer a brynwyd yn 2007-08 ac rydych heb hawlio lwfansau blwyddyn gyntaf ar eu cyfer (neu werth marchnad, os dechreuoch ddefnyddio eitem a brynwyd mewn blwyddyn gynharach at ddibenion dyletswyddau swyddogol), gweler Nodyn 1	B	£
Derbyniadau eitemau a werthwyd yn y flwyddyn (neu werth marchnad eitemau y gwnaethoch orffen eu defnyddio at ddibenion dyletswyddau swyddogol heb eu gwerthu), gweler Nodyn 2. Os oedd derbyniadau'r gwerthu neu werth unrhyw eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno, gweler Nodyn 3	C	£
Os ydy blwch A + blwch B yn fwy na blwch C nodwch y gwahaniaeth ym mlwch D *Copïwch y ffigur ym mlwch D i flwch 14 - lwfans mantoli*	D	£
Os ydy blwch C yn fwy na blwch A + blwch B, nodwch y gwahaniaeth ym mlwch E *Copïwch y ffigur ym mlwch E i flwch 10 - tâl mantoli*	E	£

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Nodyn 1: Os gwerthir eitem yr hawliwyd lwfans blwyddyn gyntaf gennych yn 2007-08, ar neu cyn 5 Ebrill 2008, a gwnaethoch ei defnyddio at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol yn unig, didynnwch y lwfans blwyddyn gyntaf o'r gost wreiddiol ac ychwanegwch y gweddill (os oes un) at eich cronfa ar gyfer 2007-08.

Nodyn 2: rhaid i chi gynnwys derbyniadau'r gwerthiant (os oes rhai) yr eitemau hynny y gwnaethoch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar eu cyfer yn 2007-08.

Nodyn 3: os ydy derbyniadau gwerthiant neu werth eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno i chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi, nodwch y gost wreiddiol yn lle hynny. Mae Taflen Gymorth 239 *Chattels and Capital Gains Tax* yn esbonio sut y gallai Treth Enillion Cyfalaf fod yn berthnasol i'r eitemau hyn.

Asedion ac offer eraill: lwfansau mantoli a thaliadau mantoli
Defnyddiwch Daflen Waith ar wahân ar gyfer pob ased neu eitem o offer unigol nas cynhwyswyd yn y 'gronfa' yn Nhaflen Waith 2 neu 4, ac nad oedd bellach yn cael eu defnyddio at ddibenion dyletswyddau swyddogol ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Taflen Waith 5

Gwerth a ddygwyd ymlaen o 2006-07, neu'r gost os prynwyd yr eitem yn 2007-08 neu werth marchnad, os dechreuoch ddefnyddio eitem a brynwyd mewn blwyddyn gynharach at ddibenion dyletswyddau swyddogol. Gweler Nodyn 1 os ydy'r eitem yn un y gwnaethoch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf ar ei chyfer yn 2007-08	A	£
Derbyniadau gwerthu os gwerthwyd yr eitem, neu werth marchnad os gwnaethoch orffen defnyddio'r eitem at ddibenion dyletswyddau swyddogol heb ei werthu ond os oedd derbyniadau'r gwerthiant neu werth unrhyw eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno, gweler Nodyn 2	B	£
Os ydy blwch A yn fwy na blwch B nodwch y gwahaniaeth ym mlwch C	C	£
Cyfran busnes blwch C *Copïwch y ffigur ym mlwch D i flwch 14 - lwfans mantoli*	D	£
Os ydy B yn fwy na blwch A, nodwch y gwahaniaeth ym mlwch E	E	£
Cyfran busnes blwch E *Copïwch y ffigur ym mlwch F i flwch 10 - tâl mantoli*	F	£

Nodyn 1: os ydy'r eitem yn un y gwnaethoch hawlio lwfans blwyddyn gyntaf yn 2007-08, didynnwch y lwfans blwyddyn gyntaf o'r gost wreiddiol a nodwch y gweddill (os oes un) ym mlwch A. Y lwfans blwyddyn gyntaf i'w ddidynnu, yw'r lwfans llawn ar gyfer y flwyddyn cyn gwneud didyniad ar gyfer defnydd preifat.

Nodyn 2: os ydy derbyniadau gwerthiant neu werth eitem yn fwy na chost wreiddiol yr eitem honno i chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi, nodwch y gost wreiddiol yn lle hynny. Mae Taflen Gymorth 239 *Chattels and Capital Gains Tax* yn esbonio sut y gallai Treth Enillion Cyfalaf fod yn berthnasol i'r eitemau hyn.

Asedion ag oes fer

Ceir rheolau arbennig os bwriedwch gadw'r eitem o offer am gyfnod byr yn unig, neu os credwch y bydd yn treulio'n gyflym. Os caffaelwch eitem y disgwyliwch ei gwaredu, neu disgwyliwch y bydd yn treulio o fewn pum mlynedd o'r dyddiad y caffaeloch hi, gallwch ddewis cyfrifo'r lwfansau cyfalaf ar wahân i'ch prif 'gronfa'.

Rhaid i'r dewis hwn:

- gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i anfon atom, a
- gael ei wneud fan pellach erbyn pen-blwydd cyntaf y 31 Ionawr yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth y caffaeloch yr eitem (felly rhaid gwneud dewis triniaeth 'ased oes fer' ar gyfer ased a gaffaelwyd yn 2007-08 erbyn 31 Ionawr 2010).

Ni ellir tynnu'r dewis yn ôl unwaith y byddwch wedi ei wneud.

Mae'r cyfrifiad ar wahân ar gyfer lwfansau cyfalaf yn golygu y gellir rhoi'r rhyddhad, am y dibrisiant gwirioneddol a achosir drwy ddefnyddio'r eitem, yn gyflymach nag o dan y rheolau arferol.

Os na fydd yr eitem wedi ei gwerthu neu wedi ei gwaredu erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd, caiff y gweddill yn y 'gronfa ar wahân' ei ychwanegu at y 'brif gronfa', ac yna delir ac ef yn y ffordd arferol.

Gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth am wybodaeth bellach.

Ariannu offer drwy hurbrynu, cytundeb prydlesu neu drefniant ariannu amgen

Os caffaelwch offer o dan drefniadau hurbrynu neu gytundeb prydlesu, bydd y canlyniadau treth yn dibynnu ar y trefniadau a wnewch. Yn fras, mae'r rheolau fel a ganlyn:

- os oes gennych gytundeb hurbrynu, bydd lwfansau cyfalaf yn ddyledus ar y blaendal cyn gynted ag y byddwch yn ei dalu. Unwaith y dechreuwch ddefnyddio'r offer, bydd gweddill y gost cyfalaf yn gymwys am lwfansau cyfalaf. Nodwch y rhain ym mlwch 14
- ar gyfer cytundeb prydlesol nad yw'n gytundeb ariannu hir, rhoddir rhyddhad treth am daliadau rhent ar ffurf didyniad am dreuliau ar gyfer y blynyddoedd y maent yn daladwy. Nodwch y didyniadau am dreuliau hyn ym mlwch 14 y tudalennau *Senedd*. Os bydd y brydles yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, trwy'r hyn y bydd neu y gallai'r prydlesai ddod yn berchen ar yr eitem, yna bydd rheolau'r cytundeb hurbrynu yn gymwys. Os ydy cytundeb y brydles yn brydles ariannu hir efallai y gallai'r prydlesai hawlio lwfansau cyfalaf. Os dechreuodd y brydles cyn 1 Ebrill 2006 ni all fod yn brydles ariannu hir. Dylech ymgynghori â ni neu eich cynghorydd treth os credwch fod prydles yn brydles ariannu hir.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os byddwch yn prynu'r asedion neu'r offer trwy ddefnyddio cytundeb ariannu amgen, y gost ar gyfer lwfansau cyfalaf yw cost wreiddiol yr ased. Nid yw'r gost wreiddiol yn cynnwys unrhyw daliadau ariannu amgen, sef y taliadau a godir gan eich darparwr ariannol sydd ar ben cost wreiddiol yr ased neu'r offer.

Os defnyddiwch yr eitem o offer yn rhannol at ddibenion preifat, yna rhaid dosrannu'r rhyddhad. Gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth am arweiniad pellach ynglŷn â hyn.

Eitemau o offer rhad

Yn lle gwneud cais am lwfansau cyfalaf, efallai y gallech hawlio didyniad am dreuliau ar gyfer cost lawn rhai eitemau yn y flwyddyn y byddwch yn eu caffael. Bydd hyn yn wir:

- os ydy cost yr eitem yn isel, ac
- mae'r eitem yn disodli un nad ydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer.

Gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth am arweiniad pellach.

Enghraifft 2 – 'cronfa' o offer a ddefnyddiwyd yn gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol: lwfans blwyddyn gyntaf a lwfans ar bapur

Daeth Lowri yn Aelod ar 6 Hydref 2006. Mae'n gweithio'n rhannol o'i chartref yng Nghaerdydd, ac roedd angen iddi brynu'r eitemau canlynol o offer er mwyn ymgymryd â'i dyletswyddau swyddogol:

6 Hydref 2006	Desg yn costio yn costio	£320
	Cwpwrdd cadw ffeiliau yn costio	£100
6 Rhagfyr 2007	Llungopïwr yn costio	£290

Defnyddir yr eitemau hyn i gyd at ddibenion dyletswyddau swyddogol. Mae Lowri'n hawlio lwfansau cyfalaf ar eu cyfer fel a ganlyn:

2006-07	Cost y ddesg	£320
	Cost cwpwrdd cadw ffeiliau	£100
		£420
	Lwfans blwyddyn gyntaf (50%)	£210
	Cariwyd ymlaen i'r gronfa ar gyfer 2007-08	£210
2007-08	Gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen	£210
	Lwfans ar bapur (25%)	£53
	Gwerth y gronfa a gariwyd ymlaen	£157
	Cost y llungopïwr 6 Rhagfyr 2007	£290
	Lwfans blwyddyn gyntaf (50%)	£145
	Gwerth a gariwyd ymlaen	£145
Cyfanswm y lwfansau cyfalaf ar gyfer 2007-08 (£53 + £145)		**£198**
2008-09	Gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen	£157
	Gwerth y llungopïwr a ddygwyd ymlaen	£145
	Gwerth newydd y gronfa	£302
	Lwfans ar bapur (25%)	£76
	Gwerth y gronfa a gariwyd ymlaen	£226

Enghraifft 3 – asedion a ddefnyddiwyd yn rhannol at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes: lwfans blwyddyn gyntaf a lwfans ar bapur.

Mae'r ffeithiau'r un fath ag yn Enghraifft 2 ac eithrio bod Lowri'n prynu cyfrifiadur sy'n costio £800 ar 6 Mawrth 2008. Mae'n defnyddio'r cyfrifiadur 90% ar gyfer ei dyletswyddau swyddogol a 10% at ddibenion preifat. Gan nad yw'r cyfrifiadur yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion dyletswyddau swyddogol nid yw'n cael ei rhoi yn y gronfa yn Enghraifft 2. Yn lle hynny, cyfrifir y lwfansau cyfalaf ar y cyfrifiadur ar wahân fel a ganlyn:

2007-08	Cost y cyfrifiadur 6 Mawrth 2008	£800
	Lwfans blwyddyn gyntaf (50%)	£400
	Gwerth a gariwyd ymlaen	£400
	Lwfans sy'n ddyledus (cyfran busnes) £400 x 90%	£360
2008-09	Gwerth a ddygwyd ymlaen	£400
	Lwfans ar bapur (25%)	£100
	Gwerth a gariwyd ymlaen	£300
	Lwfans sy'n ddyledus (cyfran busnes) £100 x 90%	**£90**

Enghraifft 4 – lwfansau mantoli a thaliadau mantoli.

Mae Lowri'n peidio â bod yn Aelod ar 30 Tachwedd 2009. Mae'r eitemau a brynwyd ganddi yn Enghreifftiau 2 a 3 yn cael eu gwaredu fel a ganlyn:

Mae'r ddesg (cost £320) yn cael ei chadw at ddefnydd preifat, ei gwerth marchnad ar 30 Tachwedd 2009 yw		£100
Mae'r cwpwrdd cadw ffeiliau (cost £100) yn cael ei werthu am		£25
Darganfyddir bod y llungopïwr (cost £290) yn enghraifft brin ac fe'i gwerthir i amgueddfa am		£500
Caiff y cyfrifiadur (cost £800) ei gadw at ddefnydd preifat: ei werth marchnad ar 30 Tachwedd 2009 yw		£200
Y lwfansau a thaliadau cyfalaf ar gyfer 2009-10 yw:		
Asedion y 'gronfa'		
Gwerth a ddygwyd ymlaen o 2008-09 (gweler Enghraifft 2)		£226
Gwerth wrth waredu:		
desg (gwerth marchnad)	£100	
cwpwrdd cadw ffeiliau (derbyniadau gwerthu)	£ 25	
llungopïwr (cost wreiddiol)	£290 *	£415
Tâl mantoli ar gyfer 2009-10		**£189 ****
Cyfrifiadur		
Gwerth a ddygwyd ymlaen o 2008-09 (gweler Enghraifft 3)		£300
Gwerth gwaredu (gwerth marchnad ar 30 Tachwedd 2009)		£200
Lwfans mantoli (cyn addasiad ar gyfer defnydd preifat)		£100
Lwfans mantoli sy'n ddyledus ar gyfer 2009-10 (cyfran busnes) £100 x 90%		**£90 *****

*Gan fod derbyniadau gwerthu'r llungopïwr (£500) yn fwy na'r gost wreiddiol (£290) cyfrifir yr addasiad mantoli drwy ddefnyddio'r gost wreiddiol.

**Rhoddir y tâl mantoli o £189 ym mlwch 10 yn nhudalennau'r *Senedd*. Petai cyfanswm y gwerth gwaredu wedi bod yn llai na gwerth y gronfa a ddygwyd ymlaen byddai'r canlyniad wedi bod yn lwfans mantoli yn lle.

***Rhoddir y lwfans mantoli o £90 ym mlwch 14 yn nhudalennau'r *Senedd*.

Cyfrifo eich bil treth

Os ydych am gyfrifo eich bil treth gofynnwch y Llinell Gyswllt am y *nodiadau Cyfrifo Treth* neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Does dim blychau ar wahân ar gyfer eich incwm Seneddol yn y Daflen Waith yn y *nodiadau Cyfrifo Treth*. Dylech gynnwys y symiau o dudalennau'r *Senedd* yn y blychau ar gyfer 'Cyflogaeth' yn y *nodiadau Cyfrifo Treth* fel a ganlyn:

Tudalen y Senedd	***Nodiadau Cyfrifo Treth***
Incwm (blwch 1)	nodwch hwn yn adran 1, blwch A1 (ynghyd ag unrhyw incwm arall o gyflogaeth sydd gennych).
Buddiannau (blychau 3 i 10)	ychwanegwch y symiau ym mlychau 3 i 10 at ei gilydd a nodwch y cyfanswm yn adran 1, blwch A5 (ynghyd â chyfanswm unrhyw fuddiannau cyflogaeth eraill sydd gennych).
Treuliau (blychau 11 i 14)	ychwanegwch y symiau ym mlychau 11 i 14 at ei gilydd a nodwch y cyfanswm yn adran 1, blwch A6 (ynghyd â chyfanswm unrhyw dreuliau cyflogaeth eraill sydd gennych).
Treth a ddidynnwyd (blwch 2)	dylech gynnwys hwn yn y cyfanswm yn adran 10, blwch A187 (ynghyd â chyfanswm unrhyw dreth arall a ddidynnwyd o unrhyw incwm o gyflogaeth).